Cyf / ID: 1561

**Department for Natural Resources**
**Adran Adnoddau Naturiol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nia Davies
Yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Gwynedd a Môn
Neuadd y Dref
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

Ein cyf:
Eich cyf:

13 Ebrill 2016

Annwyl Nia,

**Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn – Ymgynghori ar Gofrestr y Newidiadau â Ffocws**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror 2016 at Lywodraeth Cymru am ymgynghoriad Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn ar eu Cofrestr o Newidiadau â Ffocws

Mater i'r Arolygydd Cynllunio a benodwyd fydd penderfynu a yw cynllun yn un "cadarn" ai peidio. Mae'r Newidiadau â Ffocws sy'n cael eu cynnig wedi cael eu hystyried yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed ar y Cynllun Adnau ar 31 Mawrth 2015 ac yn unol â'r profion cadernid.

Mae'r **Atodiad** amgaeedig yn ymateb manwl a yw'r Gofrestr o Newidiadau â Ffocws yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ein sylwadau ar y Cynllun Adnau, yn ogystal â'r newidiadau hynny nad oeddent yn rhan o'r Cynllun Adnau. Yn ogystal, rydym yn credu **nad yw'r newidiadau â ffocws** yn mynd i'r afael â nifer o faterion pwysig a godwyd yn ein sylwadau ar y Cynllun Adnau. Mae'r atodiad hwn yn nodi pa rai o'n gwrthwynebiadau sy'n sefyll o hyd, a pham.

Hoffwn dynnu'ch sylw yn benodol at:

- **Gwarchod a chyflenwi tir ar gyfer defnydd cyflogaeth**
- **Isadeiledd a'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa**
- **Tai: yn benodol, cyfraddau lleoedd gwag; tafluniad darparu; a datblygiadau gam wrth gam**
- **Darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr – addasrwydd ac ymarferoldeb i gwrdd â'r angen**
- **Ynni Adnewyddadwy – nid yw'n cynrychioli polisi cenedlaethol**



Yr Is-adran Gynllunio • Planning Division
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 2082 3882
Candice.myers001@ wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Yn ogystal, mae gennym ragor o sylwadau lle gwelwn fod angen mwy o eglurder yng ngoleuni polisi cenedlaethol a/neu am fod diffyg sail tystiolaeth.

- Tai fforddiadwy – cyfraniad o ymrwymiadau a dyraniadau
- Asesiad o'r Dirwedd
- Y Gymraeg – cydymffurfio â pholisi cenedlaethol
- Fframwaith monitro

Credir y gallai fod yn bosibl esbonio a mynd i'r afael â'r materion uchod fel rhan o'r gwrandawiadau neu fel Newidiadau o Faterion sy'n Codi (MACs) os bydd yr arolygydd yn teimlo bod angen hynny.

Yn gywir,

**Mark Newey**
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**
**Cyfarwyddiaeth Gynllunio**

***Atodiad***

| | |
|---|---|
| NF 71 | <u>Polisi TAI11: Gwarchod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n Bod Eisoes.</u><br><br>Dylid ymestyn geiriad Polisi TAI 11 i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr i gyd-fynd â geiriad Polisi TAI 12. |
| NF 72 | <u>Polisi TAI 12: Dyrannu Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr</u><br><br>Rydym yn cefnogi'r newid yng ngeiriad y polisi i gynnwys Sipsiwn **a** Theithwyr. Dylai'r awdurdodau ystyried gwneud newid cyfatebol i golofn 'preswylwyr' y tabl er mwyn ehangu ei gwmpas i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, er mwyn bod yn gyson â geiriad y polisi. |
| NF 73 | Paragraff 7.4.99:<br><br>Nid ydym yn gwrthwynebu'r newid a wnaed gan yr awdurdod ynghylch nifer y lleiniau a'r carafanau.<br><br>Sail ein gwrthwynebiad o hyd yw'r cyfyngiad na chaniateir i Sipsiwn a Theithwyr ddefnyddio safleoedd aros am fwy na 5 niwrnod. Yn ein barn ni, mae hynny'n rhy gyfyngus. Dylai'r awdurdod esbonio a yw'r cyfyngiad hwn yn ofyn cyfreithiol. |
| NF 74 | <u>TAI13: Safleoedd ar gyfer Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr</u><br><br>Dylai'r polisi ar safleoedd 'parhaol' ac 'estyniadau i safleoedd sydd wedi cael eu hawdurdodi'n barod' a'i feini prawf fod yn gymwys i'r holl gynigion i Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys safleoedd dros dro.<br><br>Gwnaed y gwelliant i faen prawf 4 ac rydym felly yn tynnu'n gwrthwynebiad yn ôl. Er eglurder ac i gyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, dylai maen prawf 4 fod yn fwy penodol a newid 'risg o lifogydd' i ddweud na ddylid caniatáu unrhyw ddatblygiad agored iawn i niwed ym mharth C2.<br><br>Mae maen prawf 6 yn lled-fodloni ein gwrthwynebiad, ond dylai'r geiriad ddweud yn glir fod y canllaw Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru yn berthnasol i safleoedd Awdurdodau Lleol a bod safleoedd preifat yn dod o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.<br><br>Mae'r newid i faen prawf 9 yn bodloni'n gofidiau. |
| NF 75 | Paragraff 7.4.104:<br><br>Mae'r newidiadau i baragraffau 7.4.104 a 7.4.105 wedi'u gwneud ac yn bodloni'n gwrthwynebiad. |
| **Tai Fforddiadwy** | |
| NF68 | Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r Newid â Ffocws hwn. Mae'r Newid hwn yn newid TAI 9 ac yn esbonio beth sy'n digwydd os yw'r ddarpariaeth o anheddau fforddiadwy yn llai nag un uned; a beth yw'r broses ar gyfer gofyn am gyngor allanol lle na ellir dod i gytundeb ar faterion hyfywdra.<br><br>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu hepgor y canlynol. Fel a godwyd yn ein hymateb i'r Cynllun Adnau, gan fod y dystiolaeth yn clustnodi meysydd hyfyw iawn, **dylai polisi TAI 9 gynnwys testun i esbonio y gellid gofyn am fwy o gyfraniad na'r targedau lle ceir tystiolaeth i gefnogi hynny.** Dylai |

**Department for Natural Resources**
**Adran Adnoddau Naturiol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nia Davies
Yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Gwynedd a Mon
Neuadd y Dref
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

Our ref:
Your ref:

13th April 2016

Dear Nia,

**Gwynedd and Ynys Mon's joint Local Development Plan – Consultation on the Schedule of Focussed Changes**

Thank you for your letter of 23rd February 2016 notifying the Welsh Government of Gwynedd and Ynys Mon's Council's Schedule of Proposed Focussed Changes consultation.

The matter of whether a plan is considered 'sound' will be for the appointed Planning Inspector to determine. The proposed Focussed Changes have been considered in the light of the representations made to the Deposit Plan on 31 March 2015 and in accordance with the tests of soundness.

The attached **Annex** provides a detailed response on whether the Schedule of Proposed Focussed Changes meets the matters raised in our deposit representations, in addition to those changes that were not part of the Deposit Plan. Further to the above, we consider **the focussed changes are silent** in respect of a number of key issues that were raised within our deposit representation. The annex sets out where and why our objections are still maintained.

I wish to draw your attention specifically to:

- **Safeguarding and allocating land for employment purposes**
- **Infrastructure and Wylfa project associated development**
- **Housing: specifically vacancy rates; delivery trajectory; and phasing**
- **Gypsy and Traveller Provision – suitability and deliverability to meet need**
- **Renewable Energy – does not transcribe national policy**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Yr Is-adran Gynllunio • Planning Division
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 2082 3882
Candice.myers001@ wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

In addition, we have further representations where the approach requires clarification in light of national policy and/or limited supporting evidence base.

- Affordable housing – contribution from commitments and allocations
- Landscape assessment
- Welsh Language – conformity with national policy
- Monitoring framework

It is considered that it may be possible for the above matters to be addressed and explained as part of the hearing sessions or as Matters Arising Changes (MACs) if deemed necessary by the Inspector.

Yours sincerely,

**Mark Newey**
**Head of Plans Branch**
**Planning Directorate**

***Annex***

| | |
|---|---|
| | **Government's Circular 30/2007, paragraph 17.** At present the plan does not do this. |
| NF 71 | Policy TAI11: Safeguarding Existing Gypsy & Traveller Sites<br><br>The wording in Policy TAI 11 should be broadened to cover both Gypsies and Travellers to accord with the wording in Policy TAI 12. |
| NF 72 | Policy TAI 12: Gypsy and Traveller Site Allocations<br><br>We support the change in the policy wording which covers 'Gypsy and Traveller use'. The authorities should consider making a corresponding change in the table, in the 'occupants' column to widen the scope to include both Gypsies and Travellers, in order to be consistent with the policy wording. |
| NF 73 | Paragraph 7.4.99:<br><br>We do not object to the amendment made by the authority in relation to the number of pitches and caravans.<br><br>Our objection remains in relation to the restriction for the stopping site to not be occupied by Gypsies or Travellers for more than 5 days which we consider to be overly restrictive. The authority should clarify whether this time restriction is required by legislation. |
| NF 74 | TAI13: Sites for Gypsies and Traveller Pitches<br><br>The scope of the criteria based policy should extend from 'permanent' sites and 'extensions to existing authorised sites' to apply to all Gypsy and Traveller proposals and include transit sites.<br><br>The amendment to criterion 4 is supported and our objection is withdrawn. For additional clarity and to accord with national policy, criterion 4 should be more specific and amend 'high risk of flooding' to specify that no highly vulnerable development should be within zone C2.<br><br>Criterion 6 partially satisfies our objection, however the wording should clearly state that the Welsh Government's Designing Gypsy and Traveller Sites guidance applies to Local Authority sites, with private sites being regulated under the Mobile Homes (Wales) Act 2013.<br><br>The amendment to criterion 9 satisfies our concern. |
| NF 75 | Paragraph 7.4.104:<br><br>The amendments to paragraphs 7.4.104 and 7.4.105 are supported and satisfy our objection. |
| **Affordable Housing** | |
| NF68 | The Welsh Government supports this FC. This FC introduces changes to TAI 9 to clarify the provision of affordable dwellings where the contribution would be less than one unit; and the process for involving external advice where agreement cannot be reached on viability issues.<br><br>However, the Welsh Government objects to the omission of the following. As raised |